

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Cynllunio

Dyddiad: 16 Mai 2024

Rhif Union: 01824 712589

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CYNLLUNIO, DYDD MERCHER, 22 MAI 2024 am 9.30 AM YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY FIDEO GYNADLEDDA.**

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU (Tudalennau 5 - 6)

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 7 - 8)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 PENODI CADEIRYDD

Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer blwyddyn y cyngor 2024/25.

4 PENODI IS-GADEIRYDD

Penodi Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer blwyddyn y cyngor 2024/2025.

5 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryd yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

6 COFNODION (Tudalennau 9 - 16)

Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024 (copi ynghlwm).

7 TELERAU CYTUNDEB CYFREITHIOL A106 A DIWEDDARU AMODAU CYNLLUNIO AR GYFER CAIS CYNLLUNIO HYBRID 01/0315/PF YN HEN YSBYTY GOGLEDD CYMRU (Tudalennau 17 - 112)

Darparu manylion Penawdau'r Telerau ar gyfer y cytundeb cyfreithiol Adran 106 arfaethedig a'r rhestr o amodau cynllunio arfaethedig ar gyfer safle hen Ysbyty Gogledd Cymru (copi ynghlwm).

8 ADRODDIAD AR AMODAU CYNLLUNIO: CAIS RHIF 09/2023/0669 - TAI ALLAN YN HAFOD Y PARC, BODFARI (Tudalennau 113 - 146)

Ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i'r amodau sydd i'w gosod ar y caniatâd cynllunio ar gyfer Tai Allan yn Hafod-Y-Parc, Bodfari (copi ynghlwm).

CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU (EITEMAU 9 - 10) -

9 CAIS RHIF 16/2022/0894/PC - CLWYD GATE MOTEL, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD LL151YF (Tudalennau 147 - 184)

Ystyried cais i ddarparu addasiadau allanol, goleuadau a gwaith cysylltiedig (cais ôl-weithredol) yn Clwyd Gate Motel, Llanbedr Dyffryn Clwyd (copi ynghlwm)

10 CAIS RHIF 16/2021/1233/PF - TAI ALLAN YN CLWYD GATE MOTEL, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD LL15 1YF (Tudalennau 185 - 218)

Ystyried cais i addasu hen adeilad generadur i ffurfio un uned llety gwyliau, ffurfio cilfan a gwaith cysylltiedig yn nhai allan Clwyd Gate Motel, Llanbedr Dyffryn Clwyd (copi ynghlwm).

11 ADRODDIAD MATERION CYFFREDINOL - GWRTHWYNEBIADAU I'R GORCHYMYN DIOGELU COED RHIF 1 (2024) AR DIR YN NEUADD Y DREF, HEOL Y CASTELL, LLANGOLLEN (Tudalennau 219 - 232)

Rhoi gwybod i Aelodau am wrthwynebiad a dderbyniwyd mewn perthynas â Gorchymyn Diogelu Coed Rhif 1 (2024) ar dir yn Neuadd y Dref, Heol y Castell, Llangollen (copi ynghlwm).

12 CAIS AM GYFRANIAD AELOD MEWN APÊL CYNLLUNIO - 01/2022/05223/MA - CHWAREL Y GRAIG, FFORDD Y GRAIG, DINBYCH (Tudalennau 233 - 338)

Ceisio cefnogaeth a chyfraniad Aelod(au) i amddiffyn penderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol i wrthod Caniatâd Cynllunio (copi ynghlwm).

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Mark John Young
(Cadeirydd)

Ellie Chard
Karen Edwards
Gwyneth Ellis
James Elson
Chris Evans
Justine Evans
Jon Harland
Huw Hilditch-Roberts
Alan James
Delyth Jones

Julie Matthews
Terry Mendies
Raj Metri
Merfyn Parry
Arwel Roberts
Gareth Sandilands
Andrea Tomlin
Cheryl Williams
Elfed Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned